

Annwyl

Mae ein gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol wedi'i leoli yn eich etholaeth, ac ysgrifennaf atoch i ofyn am eich cefnogaeth yn sgil effaith ddinistriol Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Y Ddeddf') ar oroeswyr sy'n preswyllo mewn lloches. Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Rhagfyr 2022 a chredwn fod gan y Ddeddf y potensial i dorri'r system lochesi ac nad yw wedi bod o fudd i unrhyw oroeswr mewn lloches.

Llety brys dros dro yw darpariaeth lloches, sydd ar gael i oroeswyr a'u teulu pan fyddant yn ffoi rhag risg uniongyrchol o niwed difrifol neu farwolaeth. Ni fwriedir i'r arhosiad fod yn hirdymor ac ni fwriedir i'r lloches fod yn 'gartref'; fodd bynnag mae llawer o oroeswyr yn gorfod aros mewn lloches am dros 6 mis oherwydd diffyg llety priodol iddynt symud ymlaen iddo.

Mae'r Ddeddf wedi gwneud newid sylweddol i ddeddfwriaeth rhentu ac er ein bod yn croesawu'r gwell sicrwydd daliadaeth y mae'n ei gynnig i lawer sy'n rhentu, ni chredwn fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr effaith a gaiff ar ddarpariaeth lloches. Mae baich gweinyddol sylweddol ar awdurdodau lleol a staff lloches ar gyfer pob goroeswr unigol sy'n defnyddio lloches.

Dyma'r sefyllfa rydym ni'n delio â hi ar hyn o bryd:

Fel ein gobeithio y gwnewch chi gefnogi ein pryderon
drwy godi hyn gyda Llywodraeth Cymru ar unrhyw gyfle posibl.

Credwn fod rhaid cael eithriad i bob darpariaeth lloches i sicrhau na achosir unrhyw niwed pellach i oroeswyr neu'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu os oes gennych chi gwestiynau am ein pryderon, cysylltwch â ni ar neu cysylltwch â Cymorth i Ferched Cymru:
StephanieGrimshaw@welshwomensaid.org.uk

Diolch am ystyried y llythyr hwn ac edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.

Cofion gorau,